# Safonau Digidol Addysg

## Safon H: Hidlo Cynnwys y We

### Hanes Diwygio

| Fersiwn | Dyddiad | Sylwadau | Gan | Cymeradwywyd |
|---|---|---|---|---|
| 0.1 | 09/04/2021 | Drafft | Rachel Broad | |
| 0.2 | 27/04/2021 | Diwygio trefn y categorïau yn dilyn adborth gan Deb Sargent | Rachel Broad | |
| 1.0 | 30/07/2021 | Cymeradwywyd mewn cyfarfod TSG | TSG | TSG |
| 1.1 | 27/09/2021 | Diweddarwyd â pharagraffau agoriadol – dim newidiadau i'r safonau | Rachel Broad | |

Prif nod y safonau hidlo cynnwys y we a amlinellir yn y ddogfen hon yw y byddant yn galluogi mynediad at wefannau sy'n helpu i ddarparu addysgu a dysgu effeithiol mewn ysgolion.

Mae cyfres gyffredin o safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd yn rhoi cyfle i ysgolion wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynghylch darpariaeth wedi'i hidlo, boed honno wedi'i darparu gan yr awdurdod lleol neu gan ddarparwr arall.

Mae'n hollbwysig bod safonau hidlo yn addas i'r diben ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr 21ain ganrif, gan ganiatáu'r mynediad sy'n ofynnol gan ysgolion ond gan ddiogelu plant a phobl ifanc.

Bydd y safonau'n gyfle i ddysgwyr ddysgu mewn amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol, gan atal mynediad at gynnwys amhriodol. Dylai rhaglen diogelwch ar-lein effeithiol ategu'r canllawiau hyn i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd ymddwyn yn gyfrifol ac yn ystyriol ar-lein.

Dylai ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion fabwysiadu'r categorïau a awgrymir yn seiliedig ar alluoedd eu dysgwyr, yn hytrach nag ar eu hoedran cronolegol fel sy'n briodol.

Mae safonau 2018 yn cael eu diweddaru ar y cyd â Smoothwall a Technical Standardisation Group.

**Allwedd**

Dylai’r categori gael ei rwystro yn benodol

Dylai’r categori gael ei ganiatáu yn benodol

Bydd cynnwys unrhyw barth neu URL sy'n bodoli mewn categori sydd wedi'u uwcholeuo'n Oren yn cael ei sganio. Os bydd y cynnwys sy'n cael ei sganio yn amhriodol, e.e. gweithgarwch troseddol, yna caiff ei rwystro. Fel arall, caiff ei ganiatáu.  Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, blogiau neu beiriannau chwilio, sydd fel arfer yn ddiogel, ond a allai gynnwys deunydd amhriodol.

# Cynnwys Oedolion

### Categorïau i’w Rhwystro / Caniatáu

| Categori | Disgrifiad | Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 | TGAU ac Ôl-16 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Adloniant oedolion | A ddefnyddir ar y cyd â gwasanaeth hidlo termau chwilio i helpu i atal chwiliadau pornograffig ar y we. | | | | |
| Gwefannau oedolion | Cynnwys sydd o ran ei natur yn addas i oedolion yn bennaf, cynnwys fel iaith anweddus neu jôcs ar gyfer oedolion, ond nid pornograffi. | | | | |
| Gwefannau chwilio am gariad a chwmnïaeth | Parthau a chyfeiriadau URL sy’n darparu gwasanaethau chwilio am gariad a chwmnïaeth. | | | | |
| Termau chwilio amhriodol ac anweddus | Rhestr o ymadroddion amhriodol ac anweddus. (Bydd y rhain ond yn cyd-fynd ag ymholiadau chwilio). | | | | |
| Gamblo | Gwefannau sy’n darparu gwasanaethau gamblo a gwasanaethau cysylltiedig â gamblo fel casinos neu wasanaethau betio ar ddigwyddiadau. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnwys gwaedlyd | Gwefannau sy’n disgrifio neu arddangos cynnwys gwaedlyd. | | | | |
| Naturiolaeth a Noethlymuniaeth | Gwefannau sy’n cynnwys lluniau o noethlymunwyr a/neu sy’n hyrwyddo’r ffordd honno o fyw. | | | | |
| Noethni nad yw’n bornograffig | Gwefannau sy’n cynnwys noethni nad yw’n bornograffig, fel noethni artistig. | | | | |
| Pornograffi | Gwefannau pwrpasol ar gyfer cynnwys pornograffig, boed yn gynnwys sain, cynnwys gweledol neu’n destun. | | | | |
| Delweddau pryfoclyd | Gwefannau sy’n cynnwys lluniau o bobl mewn dillad awgrymog, o natur breifat, neu sy’n dangos llawer o’r corff, fel dillad isaf neu wisgoedd nofio. | | | | |

### Heb eu rhwystro na’u caniatáu yn benodol

| Categori | Disgrifiad | Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 | TGAU ac Ôl-16 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwefannau Rhywioldeb | Cynnwys wedi’i seilio’n bennaf ar rywioldeb, a allai fod yn anaddas i gynulleidfaoedd ieuengach. | | | | |

## Addysg, Cyllid a Busnes

### Categorïau i’w Rhwystro / Caniatáu

| Categori | Disgrifiad | Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod | Cyfnod Allweddol 3 | TGAU ac Ôl-16 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|

| | | Allweddol 2 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau academaidd | Gwefannau ysgolion, prifysgolion, colegau a chanolfannau dysgu eraill. | | | | |
| Addysg a deunydd cyfeirio | Gwefannau sy’n darparu deunyddiau a gwybodaeth sy’n cynorthwyo’r dysgu. | | | | |
| Cryptoarian | Gwefannau sy’n trafod, neu sy’n darparu’r gallu i brynu, gwerthu neu gyfnewid cryptoarian. | | | | |
| Llywodraethau | Gwefannau llywodraethau a gwefannau sy’n ymwneud â sefydliadau llywodraethol. | | | | |
| Llên-ladrad | Gwefannau sy’n cynnig cymorth am dâl a/neu ddeunyddiau gwaith cartref wedi’u hysgrifennu ymlaen llaw ar gyfer disgyblion. | | | | |

## Heb eu rhwystro na’u caniatáu yn benodol

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2** | **Cyfnod Allweddol 3** | **TGAU ac Ôl-16** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnes a chorfforaethau | Gwefannau ar gyfer busnesau a sefydliadau masnachol, lle mae’r sefydliad yn darparu nwyddau neu wasanaethau am dâl. | | | | |
| Elusennau a sefydliadau nid-er-elw | Elusennau a sefydliadau nid-er-elw. | | | | |
| Gwasanaethau ariannol | Gwefannau sy’n ymwneud â chyllid, gan gynnwys cyngor ar fuddsoddi, ond nid pyrth bancio ar-lein. | | | | |
| Bancio ar-lein | Gwefannau sy’n darparu mynediad at fancio ar-lein, neu wasanaeth rheoli cardiau credyd ar-lein. | | | | |
| Gwleidyddiaeth | Gwefannau sy’n perthyn i blaid wleidyddol neu wefannau sy’n seiliedig ar wleidyddiaeth. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo tirol ac eiddo | Gwefannau sy’n trafod, hyrwyddo, marchnata a darparu gwybodaeth am rentu, prynu neu werthu eiddo tirol neu eiddo. | | | | |
| Crefydd | Gwefannau lle mai crefydd yw’r brif thema neu gynnwys. | | | | |
| Cyfieithu | Gwefannau sy’n darparu gwasanaethau cyfieithu, fel blociau o destun, neu sy’n darparu cyfieithiad o wefan gyfan. | | | | |

# Adloniant a Chyfryngau Cymdeithasol

### Categorïau i’w Rhwystro / Caniatáu

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2** | **Cyfnod Allweddol 3** | **TGAU ac Ôl-16** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hysbysebion | Gweinyddion hysbysebion a chyfeiriadau URL i hysbysebion. | | | | |
| Sain a fideo | Gwefannau sy’n darparu gwasanaeth lawrlwytho neu ffrydio sain neu fideo. | | | | |
| Blogiau | Gwefannau sy’n lletya cynnwys blog o unrhyw fath. | | | | |
| Enwogion | Gwefannau sy’n ymwneud ag unrhyw gyfryngau enwogion, gwefannau i ddilynwyr neu newyddion am enwogion. | | | | |
| Fforymau trafod | Gwefannau pwrpasol ar gyfer fforymau trafod, fel phpBB. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nofelau graffig | Nofelau graffig, Manga a mathau eraill o waith darluniadol, ac eithrio unrhyw beth pornograffig. | | | | |
| Gwasanaeth lletya delweddau: heb ei gymedroli | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau lletya delweddau fel cynnwys pornograffig neu gynnwys sy'n annymunol mewn unrhyw ffordd arall. | | | | |
| Negeseua Gwib, Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) a gwegynadledda | Gwefannau sy'n cynnwys cleientiaid negeseua a gwefannau negeseua ar y we, yn ogystal ag unrhyw fath o wasanaeth sgwrsio seiliedig ar Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd. | | | | |
| Jôcs a Hiwmor | Gwefannau pwrpasol ar gyfer hiwmor, gan gynnwys jôcs, fideos, delweddau doniol a dychan. | | | | |
| Cylchgronau | Gwefannau sy'n gwerthu, adolygu neu drafod cynnwys cylchgronau, boed yn gylchgronau wedi'u hargraffu neu rai ar-lein. | | | | |
| Amgueddfeydd ac orielau celf | Gwefannau sy'n hyrwyddo, a/neu arddangos gwaith celf neu wrthrychau o arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol. | | | | |
| Arwerthiannau ar-lein | Gwefannau arwerthu ar-lein lle cynhelir gwerthiannau drwy arwerthiant. | | | | |
| Gemau ar-lein | Gwefannau sy'n darparu gemau y gellir eu chwarae mewn porwr gwe. | | | | |
| Rhwydweithio cyfrifiaduron cydradd | Gwefannau rhwydweithio cyfrifiaduron cydradd a ddefnyddir i lawrlwytho neu ffrydio cynnwys. | | | | |
| Awgrymiadau chwilio | Awgrymiadau chwilio awtomatig a ddarperir gan beiriannau chwilio fel Google, Bing neu YouTube. | | | | |
| Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol | Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol | | | | |
| Gwastraffu amser | Gwefannau anghynhyrchiol sy'n boblogaidd gyda phlant. | | | | |

**Heb eu rhwystro na'u caniatáu yn benodol**

| Categori | Disgrifiad | Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 | TGAU ac Ôl-16 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Gemau Cyfrifiadur | Gwefannau sy'n ymwneud â gemau cyfrifiadur, ond *nid* gemau y mae modd eu chwarae mewn porwr. | | | | |
| Cyfrifiadura | Gwefannau sy'n ymwneud â chyfrifiadura fel ieithoedd rhaglennu neu newyddion yn ymwneud â thechnoleg. | | | | |
| Lletya ffeiliau | Gwefannau sy'n cynnig gwasanaethau storio ffeiliau ar-lein ar weinyddion o bell at ddibenion cadw copïau wrth gefn neu gyfnewid. | | | | |
| Gwasanaeth lletya delweddau: wedi'i gymedroli | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau lletya delweddau sy'n cael eu fetio neu eu rheoli gyda pholisi amodau defnyddio neu'n cael eu cymedroli gan bobl. | | | | |
| Mapio | Gwefannau sy'n darparu gwasanaethau mapio daearyddol gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo neu'n darparu cyfle i gynllunio teithiau. | | | | |
| Ffilmiau | Gwefannau, adolygiadau a thrafodaethau yn ymwneud â ffilmiau. | | | | |
| Cerddoriaeth | Gwefannau sy'n trafod, hyrwyddo, marchnata neu ddosbarthu cerddoriaeth, gan gynnwys gwefannau i ddilynwyr, gwefannau sy'n darparu geiriau i ganeuon, gwefannau rhestrau chwarae, gwefannau artistiaid a phynciau cerddoriaeth. | | | | |
| Newyddion | Gwefannau sydd â'r prif amcan o gyflwyno newyddion lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, neu newyddion sy'n ymwneud â phwnc penodol. | | | | |
| Siopa ar-lein | Gwefannau lle gellir gwneud pryniannau o unrhyw fath. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Radio a theledu | Radio a theledu nad ydynt yn gysylltiedig â'r newyddion, gan gynnwys gwefannau ffrydio radio. | | | | |
| Diweddariadau meddalwedd | Parthau a ddefnyddir i lawrlwytho diweddariadau meddalwedd. | | | | |
| Chwaraeon | Gwefannau yn trafod neu'n hyrwyddo unrhyw chwaraeon, gan gynnwys tudalennau hafan timau chwaraeon. | | | | |
| Teithio a gwasanaethau trafnidiaeth | Gwefannau gwybodaeth neu wefannau archebu sy'n ymwneud â thrafnidiaeth fel trenau, tacsis neu awyrennau. | | | | |
| Talfyrru URL | Gwefannau sy'n darparu gwasanaeth talfyrru a dargyfeirio cyfeiriadau URL. | | | | |
| Gwyliau | Gwefannau sy'n ymwneud â theithio a gwyliau. | | | | |
| Cerbydau a moduro | Gwefannau sy'n hysbysebu, hyrwyddo, trafod neu gynnig gwybodaeth ar gerbydau a moduron. | | | | |
| Gwebost | Gwefannau pwrpasol ar gyfer e-bost/gwebost. | | | | |
| Chwilio'r we | Gwefannau sy'n darparu swyddogaeth chwilio'r we. | | | | |

# Iechyd a Llesiant

### Categorïau i'w Rhwystro / Caniatáu

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2** | **Cyfnod Allweddol 3** | **TGAU ac Ôl-16** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Erthylu | Gwefannau sy'n cyfeirio at erthylu, gan gynnwys cyfeiriadau "pleidiol i fywyd" a rhai "pleidiol i ddewis". | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Alcohol a thybaco | Gwefannau sy'n ymwneud â defnyddio, gwerthu, cynhyrchu a hyrwyddo diodydd alcoholig a thybaco (gan gynnwys e-sigarennau). | | | | |
| Tyllu'r corff a thatŵs | Gwefannau sy'n hyrwyddo, gwerthu, hysbysebu neu drafod unrhyw addasiadau i'r corff fel tyllau mewn rhannau o'r corff a thatŵs. | | | | |
| Cyffuriau | Gwefannau sy'n ymwneud â gwerthu, gweithgynhyrchu, hyrwyddo neu ddefnyddio cyffuriau adloniannol a rhai presgripsiwn. | | | | |
| Hunan-niweidio | Gwefannau sy'n ymwneud â hunan-niweidio, hunanladdiad ac anhwylderau bwyta | | | | |
| Addysg rhyw | Gwefannau addysgol sy'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys atgynhyrchu, atal cenhedlu, a rhyw diogel. | | | | |

**Heb eu rhwystro na'u caniatáu yn benodol**

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2** | **Cyfnod Allweddol 3** | **TGAU ac Ôl-16** | **Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth feddygol | Gwefannau a chanddynt gynnwys yn ymwneud ag iechyd a materion meddygol. | | | | |

# Cynnwys Anghyfreithlon, Treisgar neu Niweidiol

## Categorïau i'w Rhwystro / Caniatáu

| Categori | Disgrifiad | Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 | TGAU ac Ôl-16 | Athrawon a staff nad ydynt yn addysgwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam-drin plant | Geiriau allweddol mewn perthynas â cham-drin plant wedi'u cyfrannu gan Internet Watch Foundation. | | | | |
| Gweithgarwch troseddol | Gwefannau sy'n darparu naill ai cyfarwyddiadau neu adnoddau sy'n hwyluso gweithgarwch anghyfreithlon, fel datod cloeon, cardiau adnabod ffug a thwyll. | | | | |
| Hacio | Gwefannau sy'n canolbwyntio ar hacio neu gracio, ni waeth a yw hynny at ddibenion gwirio diogelwch neu at ddibenion maleisus neu droseddol. | | | | |
| Anoddefgarwch | Gwefannau sy'n ymwneud â hyrwyddo anoddefgarwch o unrhyw fath. | | | | |
| Maleiswedd a gwe-rwydo | Gwefannau sy'n lletya feirysau, maleiswedd, meddalwedd hysbysebu, ysbïwedd neu ymwelwyr diwahoddiad. | | | | |
| Lladrad hawlfraint a thor hawlfraint | Gwefannau sy'n cynnwys deunydd o dan hawlfraint sydd wedi'i ladrata i'w lawrlwytho neu ei ffrydio yn anghyfreithlon. | | | | |
| Terfysgaeth | Gwefannau a ddarperir gan gangen Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth Swyddfa Gartref y DU, sy'n cynnwys deunyddiau o blaid terfysgaeth. | | | | |
| Trais | Gwefannau sy'n ymwneud yn benodol â thrais, boed hynny drwy wawdio neu fwlio. | | | | |
| Arfau (hela a helwriaeth) | Arfau hela a saethu targed. | | | | |
| Arfau (milwrol) | Gwefannau yn disgrifio arfau rhyfel, gan gynnwys rhai mewn cyd-destun hanesyddol. | | | | |
| Arfau (arfau personol) | Gwefannau yn disgrifio gwaith cynnal a chadw a gwaith gweithgynhyrchu arfau, gan gynnwys drylliau, llafnau, ffrwydron, a dyfeisiau cynnau tân. | | | | |